



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	Darlithydd mewn Pensaernïaeth – Ymgynghorydd Astudiaethau Proffesiynol
Ysgol:	Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd
Lleoliad:	Campws Llandaf
Gradd:	7 A/B
Cyflog:	£46,049 - £51,753 y flwyddyn pro rata
Oriau:	22.2 awr yr pythons
Deiliadaeth:	Parhaol

Crynodeb o'r Rôl:

Nodweddir pensaernïaeth ym Met Caerdydd gan ddiwylliant o ymholiad creadigol, rhagoriaeth dylunio a chydweithio rhyngddisgyblaethol. Mae'r rhaglen yn annog myfyrwyr i ddatblygu hunaniaeth bensaernïol unigol trwy ddysgu mewn stiwdio sy'n cydbwysu meddwl cysniadol, gwybodaeth dechnegol, ymholiad beirniadol ac ymarfer proffesiynol. Bydd deiliad y swydd yn ysbrydoli myfyrwyr i ymateb yn greadigol i heriau pensaernïol cyfoes, gan ymgysylltu'n feirniadol â dimensiynau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol a thechnolegol yr amgylchedd adeiledig.

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd addysgu ar draws y rhaglenni Pensaernïaeth, gyda phwyslais ar stiwdios dylunio pensaernïol ac ymarfer proffesiynol. Byddant yn meithrin diwylliant stiwdio ysgogol sy'n hyrwyddo arbrofi, myfyrio beirniadol, a safonau uchel o gyfathrebu dylunio, wrth helpu myfyrwyr i gysylltu dysgu academiaidd ag ymarfer pensaernïol cyfoes. Fel pensaer sy'n ymwneud yn weithredol ag ymarfer proffesiynol, bydd deiliad y swydd yn dod â gwybodaeth gyfredol am y diwydiant, dulliau dylunio sy'n dod i'r amlwg a mewnwediad proffesiynol i amgylchedd y stiwdio. Byddant yn cyfrannu at ddatblygu prosiectau byw, addysgu dan arweiniad ymarfer, partneriaethau allanol a chyfleoedd i fyfyrwyr ymgysylltu ag ymarferwyr, cleientiaid a chymunedau lle bo'n briodol. Bydd y rôl yn cefnogi ymrwymiad y rhaglen i baratoi graddedigion sy'n greadigol, yn fyfyrionol ac wedi'u cyfarparu ar gyfer ymarfer pensaernïol cyfoes.

Byddant yn dod yn rhan o ddiwylliant addysgu ac ymchwil bywiog, gan ymgorffori eu harbenigedd yn y cwricwlwm, ymgysylltu â chydweithwyr, a datblygu allbynnau ymchwil, cyfnewid gwybodaeth ac effaith sy'n cyd-fynd â'u harbenigedd disgyblaethol a'u harbenigeddau ymchwil.



PROFFIL RÔL

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Cymorth addysgu a dysgu

- Goruchwyllo myfyrwyr israddedig, ôl-raddedig ac ymchwil.
- Dylunio deunydd addysgu a'i gyflwyno naill ai ar draws ystod o fodiwlau neu o fewn maes pwnc.
- Dylunio a chynnal cynnwys ac amgylcheddau dysgu rhithwir.
- Defnyddio dulliau addysgu, cymorth dysgu ac asesu priodol.
- Goruchwyllo prosiectau myfyrwyr, a/neu e.e. teithiau maes a, lle bo'n briodol, lleoliadau.
- Nodi meysydd lle mae angen adolygu neu wella'r ddarpariaeth bresennol.
- Cyfrannu at gynllunio, dylunio a datblygu amcanion a deunyddiau.
- Gosod, marcio ac asesu gwaith ac arholiadau a rhoi adborth i fyfyrwyr.

Ymchwil ac ysgolheictod

- Arwain cynigion a phrosiectau ymchwil a/neu arloesi sydd â'r potensial i gynhyrchu incwm, rheoli cyflawniadau prosiectau, cyflawni allbynnau a sicrhau effaith.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid prifysgol i nodi ffynonellau cyllid ymchwil a/neu arloesi ac arwain y broses o sicrhau cyllid.
- Rheoli'r gwaith o gyflawni prosiectau ymchwil a/neu arloesi unigol a/neu gydweithredol ar amser ac o fewn y gyllideb.
- Cymhwyso gwybodaeth a gafwyd o ymchwil ac arloesedd yn ogystal ag ysgolheictod i ddysgu ac addysgu, a gweithgareddau allanol priodol.
- Arwain y gwaith o ddylunio a chynhyrchu cyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid a/neu allbynnau ymarferwyr, a/neu lledaenu canfyddiadau ymchwil gan ddefnyddio cyfryngau priodol eraill.
- Arwain y gwaith o gynhyrchu a lledaenu allbynnau arloesedd a/neu ymchwil.
- Gwneud cyflwyniadau mewn cynadleddau academiaidd a/neu ymarferwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol neu arddangos gwaith mewn digwyddiadau priodol eraill.
- Goruchwyllo myfyrwyr gradd ymchwil a chefnogi myfyrwyr ymchwil i reoli prosiectau i'w cwblhau'n amserol.

Cyfathrebu

- Cyfathrebu syniadau cymhleth a chysyniadol yn rheolaidd.

Cyswllt a rhwydweithio

- Cymryd rhan mewn a helpu i ddatblygu rhwydweithiau mewnol ac allanol er budd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ym meysydd addysgu ac ymchwil.

Rheoli pobl

- Mentora cydweithwyr sydd â llai o brofiad a chynghori ar ddatblygiad personol.
- Yn dibynnu ar y maes gwaith, gellid disgwyl goruchwyllo gwaith eraill.

Gwaith tîm

- Gweithredu fel aelod cyfrifol o'r tîm, gan arwain lle cytunwyd, a datblygu

- perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gydag aelodau eraill o staff.
- Cydweithio â chydweithwyr i nodi ac ymateb i anghenion myfyrwyr.

Gofal bugeiliol

- Gellid disgwyl i ddeiliad y swydd weithredu fel tiwtor modiwl.
- Bod yn gyfrifol am ofal bugeiliol myfyrwyr o fewn ardal benodol.
- Ymdrin â phroblemau safonol a helpu cydweithwyr i ddatrys eu pryderon ynghylch cynnydd mewn ymchwil.

Menter, datrys problemau a gwneud penderfyniadau

- Asesu, dehongli a gwerthuso canlyniadau ymchwil.
- Nodi'r angen i ddatblygu cynnwys neu strwythur modiwlau gyda chydweithwyr a gwneud cynigion ar sut y dylid cyflawni hyn.
- Datblygu syniadau sy'n hyrwyddo'r pwnc a/neu'r meysydd ymchwil.
e.e. Datblygu syniadau a dod o hyd i ffyrdd o ledaenu a chymhwyso canlyniadau ymchwil ac ysgolheictod.
e.e. Cyfrifoldeb am ddylunio a chyflwyno eich modiwlau a'ch dulliau asesu eich hun.
e.e. Cydweithio â chydweithwyr ar weithredu gweithdrefnau asesu.
e.e. Cynghori eraill ar faterion strategol fel recriwtio myfyrwyr a marchnata.
e.e. Cyfrannu at achredu cyrsiau a phrosesau rheoli ansawdd.

Cynllunio a rheoli adnoddau

- Fel arweinydd modiwl neu diwtor, cydlynu ag eraill (megis staff cymorth neu gydweithwyr academiaidd) i sicrhau bod anghenion a disgwyliadau myfyrwyr yn cael eu diwallu.
- Rheoli prosiectau sy'n ymwneud â'ch maes gwaith eich hun.
- Cymryd rhan mewn datblygu syniadau ar gyfer cynhyrchu incwm.

Gofynion synhwyrdd, corfforol ac emosiynol.

- Cydbwyso pwysau gofynion addysgu a gweinyddol a therfynau amser cystadleuol.

Amgylchedd gwaith

- Yng nghyd-destun polisi iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd, yn dibynnu ar y maes gwaith a lefel yr hyfforddiant a dderbyniwyd, gellir disgwyl i'r ymgeisydd gynnal asesiad risg a chymryd cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch eraill.

Arbenigedd

- Meddu ar ddigon o wybodaeth arbenigol yn y ddisgyblaeth i ddatblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu.
- Defnyddiwch ystod o dechnegau cyflwyno.

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch cynorthwyo i gyflawni eich rôl. Mae'r brifysgol yn sefydliad deinamig; felly efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Gwneir unrhyw newidiadau ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd. Nid yw'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau i fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae'n debygol y bydd tasgau cysylltiedig eraill yn cael eu cyflawni yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiâu a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Gwasanaethau Pobl ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

MANYLEB PERSON

Teitl y Swydd: Darlithydd mewn Pensaernïaeth – Ymgynghorydd
Astudiaethau Proffesiynol

Ysgol/Uned: Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

*Allwedd

Ff - Ffurflen gais

C - Cyfweliad

Cyfl - Cyflwyniad

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESWYD GAN		
		Ff*	C*	Cyfl*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	Gradd Anrhydedd mewn Pensaernïaeth (ARB Rhan 1 neu gyfwerth).	✓		
	Gradd meistr mewn Pensaernïaeth (ARB Rhan 2 neu gyfwerth).	✓		
	Cymhwyster lefel doethuriaeth neu brofiad cyfatebol (gan gynnwys ymarfer proffesiynol / mewn diwydiant) i alluogi cyflwyniad i ymarferion asesu ymchwil AU y DU.	✓		
	Y gallu i gyflawni Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch, o fewn cyfnod o dair blynedd.	✓	✓	
	Tystysgrif/diploma ôl-raddedig mewn Ymarfer Proffesiynol mewn Pensaernïaeth (ARB Rhan 3 neu gyfwerth).	✓		
	Pensaer Cofrestredig gyda'r Bwrdd Cofrestru Penseiri, ARB.	✓		
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	Cymhwysedd i ddod yn Aelod Siartredig o Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain.	✓		
	Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch.	✓		
Gwybodaeth (Hanfodol)	Lefel dda o wybodaeth sy'n berthnasol i'r pwnc a'r maes proffesiynol.	✓	✓	
	Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).	✓		
	Gwybodaeth mewn dylunio pensaernïol (damcaniaeth a methodoleg).	✓	✓	
	Gwybodaeth gyfredol am y diwydiant, am ddulliau dylunio			

	sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediad proffesiynol i amgylchedd y stiwdio. Dealltwriaeth gadarn o addysgeg. Dealltwriaeth gadarn o ymchwil/arloesi a gweithgaredd ysgolheigaidd. Tystiolaeth o ymgysylltu ag ymchwil/arloesi/ymarfer.	✓	✓	
Gwybodaeth (Dymunol)	Arbenigedd mewn addasu, adnewyddu ac aildddefnyddio adeiladau presennol, gan gynnwys dealltwriaeth o batholeg adeiladu a'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â gweithio gyda'r amgylchedd adeiledig presennol.	✓	✓	
Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r Rôl (Hanfodol)	Y gallu i ddatblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu. Y gallu i ddylunio deunydd addysgu a dysgu ysbrydoledig ac effeithiol. Y gallu i ddefnyddio dulliau asesu priodol. Y gallu i gefnogi datblygiad amcanion, prosiectau neu gynigion ymchwil. Y gallu i ddefnyddio dulliau priodol ar gyfer lledaenu canfyddiadau ymchwil. Y gallu i gyfrannu at gyflawniad Cynllun Datblygu'r Ysgol a datblygu gweithgareddau ysgol eraill. Y gallu i ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol mewn modd cywir ac amserol. Y gallu i gynllunio llwythi gwaith a phrosiectau a rheoli adnoddau'n effeithiol. Y gallu i nodi meysydd i'w gwella a defnyddio menter a sgiliau datrys problemau i wella perfformiad. Y gallu i gymryd cyfrifoldeb am nifer o feysydd allweddol megis tiwtor modiwlau, goruchwyllo ymchwil ar lefel israddedig. Y gallu i gyfleu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amrywiaeth o ffyrdd – cyflwyniadau mewn cynadleddau, adroddiadau ar ganfyddiadau, cyhoeddiadau, adborth ac ati.	✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓	✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓	✓ ✓ ✓ ✓

	Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol. Y gallu i gydweithio ar ymchwil a/neu brosiectau drwy ddatblygu partneriaethau priodol. Y gallu i ddatblygu cynnwys dysgu rhithwir digidol. Y gallu i weithio gyda phartneriaid allanol yn y diwydiant a'r diwydiant dinesig er mwyn datblygu'r cwriclewm neu fentrau ymchwil.	✓	✓	
Sgiliau a Galluedd sy'n Ymwneud â'r Rôl (Dymunol)	Y gallu i gymryd rhan mewn mentrau trawsddisgyblaethol mewn addysgu ac ymchwil. Y gallu i ddatblygu mentrau newydd mewn addysgu, ymchwil ac arloesi .		✓	
Profiad â Thâl/Heb dâl (Hanfodol)	Profiad o addysgu neu gyfwerth. Profiad o ymchwil neu gyfwerth. Profiad o ddenu neu gynhyrchu arian/incwm trwy amrywiaeth o ffynonellau. Profiad o weithio gydag eraill mewn swyddogaeth goruchwyllo/arwain/cefnogi/mentora. Rhwydwaith amlwg o fewn y diwydiant Pensaernïaeth. Profiad o weithio ym maes Dylunio Pensaernïol. Profiad o ddatblygu a herio briffiau cleientiaid, gan gyfieithu anghenion defnyddwyr yn strategaethau dylunio clir.	✓	✓	
Profiad â Thâl/Di-dâl (Dymunol)	Profiad o addysgu ac ymchwil mewn Addysg Uwch. Profiad o oruchwyllo gradd ymchwil.	✓		
Gofynion Eraill (Hanfodol)	Parodrwydd i weithio penwythnosau achlysurol i gefnogi gweithgareddau recriwtio.	✓		
Gofynion Eraill (Dymunol)				

Sgiliau Iaith Gymraeg	<u>Gwrando</u>			
Gwrando	C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.	✓		
Dymunol				
Sgiliau Iaith Gymraeg	<u>Darllen</u>			
Darllen	C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.	✓		
Dymunol				
Sgiliau Iaith Gymraeg	<u>Siarad</u>			
Siarad	C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.	✓		
Dymunol				
Sgiliau Iaith Gymraeg	<u>Ysgrifennu</u>			
Ysgrifennu	C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.	✓		
Dymunol				